# Eich Gwasanaeth Tai

## SUT MAE EICH GWASANAETH TAI YN GWEITHIO

Darperir eich Gwasanaeth Tai drwy rwydwaith o 2 Swyddfa Tai Ardal a 2 Swyddfa Tai Cymdogaeth.

Mae Swyddfeydd Tai yn mynd ymdrin â:

- Rheoli Tenantiaeth
- Trosglwyddiadau a Chyfnewidfeydd Ar y Cyd
- Ymholiadau Atgyweiriadau
- Gwelliannau Tenant
- Rheoli Ystadau
- Eiddo Gwag
- Niwsans ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cyngor Tai Sylfaenol

Bydd y staff tai lleol yn eich helpu chi i fynd i'r afael â'ch problemau tai drwy roi cyngor i chi ar faterion sy'n ymwneud â'ch tenantiaeth. Does dim angen i chi wneud apwyntiad fel arfer, ond mae'n syniad da i chi wirio yn gyntaf y os bydd rhywun ar gael i gwrdd â chi pan ydych chi'n ymweld â'r swyddfa. Mewn amgylchiadau penodol byddwn yn ymweld â chi yn eich cartref, os nad ydych chi'n gallu mynychu'r swyddfa.

Mae gan bob swyddfa Syrfëwr Adeiladu a gallant roi cyngor i chi ar faterion ynghylch atgyweiriadau, cynnal a chadw a gwelliannau neu newidiadau tenantiaid.

## PWY SY'N GWEITHIO YN Y SWYDDFA TAI?

- **RHEOLWR TAI ARDAL / CYMDOGAETH**

  Y Rheolwr Tai sydd â'r cyfrifoldeb am yr holl Wasanaethau Tai yn eich ardal, yn ogystal â'r holl staff sy'n darparu'r gwasanaeth yn y lleoliad hwnnw. Os oes gennych broblem na ellir cael ei ddatrys gan staff y swyddfa, gofynnwch am apwyntiad i weld y Rheolwr Tai.

- **RHEOLWR CYNORTHWYOL/WRAIG TAI ARDAL**

  Mae'r Rheolwr Cynorthwyol Tai Ardal yn cefnogi'r Rheolwr Tai wrth ddarparu gwasanaeth tai o ansawdd gyda chyfrifoldeb penodol am eiddo gwag a dyletswyddau yn ymwneud â chynnal a chadw.

- **SWYDDOGION RHEOLI YSTADAU**

  Eu swydd yw rheoli cartrefi mewn ardal benodol, mynd i'r afael â phroblemau a chwynion tenantiaid, dyrannu a phrydlesu eiddo gwag. Dynodir yr ardal rydych yn byw ynddi i Swyddog Rheoli Ystadau penodol a fydd yn mynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau neu broblemau gall fod gennych. Cysylltwch â'ch swyddfa leol i ddarganfod pwy sy'n delio â'ch ardal neu'ch cymdogaeth benodol.

- **SYRFEWYR ADEILADU**

  Yn gyfrifol am gynnal archwiliadau o atgyweiriadau mewn eiddo gwag ac eiddo wedi eu meddiannu, yn nodi'r atgyweiriadau angenrheidiol a'u harchebu, ac ymdrîn â gofynion tenantiaid ar gyfer gwelliannau. Y syrfewyr adeiladu yw ein harbenigwyr technegol.

- **SWYDDOGION CLERIGOL**

  Mae'r Swyddogion Clerigol yn darparu gwasanaeth derbynfa, yn eich darparu â'r ffurflenni addas, yn rhoi cymorth a chyngor i chi ar unrhyw ymholiadau tai, derbyn eich ymholiadau atgyweiriadau a threfnu apwyntiadau gyda swyddogion eraill os nad ydynt yn medru ateb eich ymholiad.

- **WARDENIAID CYMUNEDOL YR AMGYLCHEDD**

  Mae gan rhai ardaloedd gofalwyr neu Wardeniaid Cymunedol yr Amgylchedd fel rhan o strategaeth y cyngor i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Maent yn darparu cymorth ychwanegol wrth lanhau'r strydoedd, trefnu i eitemau trwm i gael eu symud, cael gwared ar graffiti, atgyweiriadau bychain, patrolio'r ystâd ac adrodd am unrhyw doriadau tenantiaeth i'r Swyddog Rheoli Ystadau.

## GWASANAETHAU TAI ERAILL

Mae ein His-adran Rhenti wedi ei lleoli yng Nghanolfan Busnes a Thechnoleg Tredomen a byddwn yn ymateb i unrhyw ymholiadau gall fod gennych ynghylch eich cyfrif rhent.

Mae gennym hefyd Is-adran Gorfodaeth Tenantiaeth, sef tîm o swyddogion sy'n rhwymedig i ddarparu dull gweithgar gwynion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a thoriadau amodau tenantiaeth eraill.

Am fanylion cyswllt pellach edrychwch ar "Cysylltu â Ni".

Yn ogystal â rhwydwaith y Swyddfeydd Ardal a Chymdogaeth gall y Gwasanaeth Tai swyddfa eich darparu â chymorth a chyngor ar Bolisi a Gweithdrefnau Tai, Yr Hawl i Brynu, Gwasanaeth Lesddalwyr, Tai i Bobl Hŷn, Addasiadau, Cwynion ynghylch y gwasanaeth rydych wedi ei dderbyn, arolygon boddhad Cwsmeriaid, Monitro'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu, Gwelliannau Amgylcheddol, Cynlluniau Atgyweiriadau Grŵp, Cyfranogiad Tenantiaid, Cynnal a Chadw wedi ei Gynllunio, Gweithfeydd Mawr ac Atgyweiriadau mewn Ymateb.

## GWASANAETH CWYNION

Bydd y Staff Ardal a Chymdogaeth yn mynd i'r afael â cheisiadau a chwynion dydd-i-ddydd. Os ydych am gwyno ynghylch y ffordd rydym wedi darparu gwasanaethau i chi, neu am unrhyw wasanaeth arall gan y cyngor rydych efallai wedi cael problem ag ef na ellir ei ddatrys gan eich Staff Ardal neu Gymdogaeth, mae gan y cyngor **Weithdrefn Cwynion** gallwch ei ddefnyddio.

Am fanylion pellach, ewch i'r is-adran "Canmol a Chwynion".